
LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser
ers 1826

Eglwys Ebeneser Mawrth / Ebrill 2026 Cyfrol 97 Rhif 2





*Gair gan y Gweinidog*

# Ebeneser yn Dathlu 200

Testun llawenydd i ni oedd cael cynnal oedfa Ddathlu 200 ar ddydd Sul 1af o Fawrth, am 3.00 y prynhawn. Bu'r pwyllgor dathlu yn ddiwyd yn trefnu yn y cefndir ac mae'n diolch iddynt hwy am y prynhawn hyfryd a gafwyd. Gwahoddwyd hen ffrindiau i ymuno gyda ni, ac roedd yr ymateb yn wych a chapel y Methodistiad yn llawn ar gyfer yr achlysur. Wrth i'r gynulleidfa gyrraedd, dangoswyd lluniau o'r gorffennol ar y sgrin, o ddyddiau Lewis Powell hyd y presennol.

Llywyddwyd yr oedfa gan y gweinidog a chyfeiliwyd ar yr organ gan Helen Thomas. Agorwyd y gwasanaeth mewn ffordd anarferol trwy i Alun ledio emyn Morgan Llwyd, "Yr ydym yma yn dy ŵydd...." yn yr hen ddull a ddefnyddid 200 mlynedd yn ôl. Bryd hynny roedd yr arweinydd yn canu cwpled ac yna'r gynulleidfa yn ei ailadrodd.

Rhannwyd yr oedfa yn dair rhan :

1. Dathlu'r cychwyn. Darllenodd Bethan Hayes o 1 Samuel (Beibl William Morgan) pennod 7, lle y cyfeirir at hanes yr Ebeneser cyntaf ac yna gywydd gan Dr Eirian Dafydd. Cyflwynodd Mair Robins waith celf tecstiliau "Llusernau" oedd wedi ei greu ganddi hi a Sandra Semmens, mewn cyd-weithrediad â'r plant, er mwyn dathlu'r 200. Adroddwyd hanes y cychwyn gan Gwilym Dafydd, Mair Robins, Catrin Jên, a Lis Decaro.

2. Dathlu'r hanes. Darllenodd Rhodri Lewis o Hebreaid 12 (Beibl Cymraeg Newydd), sy'n sôn am y cwmwl tystion o gredinwyr sydd wedi mynd o'n blaenau. A dyna hanes eglwys Ebeneser. Dros gyfnod o 200 mlynedd y mae miloedd o bobl wedi bod yn rhan o fywyd yr eglwys, pobl enwog a dinod, ond pawb ohonynt yn rhan o gorff Crist. Cymerwyd rhan yn yr adran hon gan Gwenda Lewis, Petra Bennett, Janet Jones ac Ifan Roberts. Offrymwyd gweddi rymus gan y cyn-weinidog, y Parch. Dr. Geraint Tudur, yn diolch am a fu ac yn gofyn am fendith i'r dyfodol. Cyflwynwyd cyfarchion cynnes i Ebeneser gan y Parch. Owain Llŷr Evans, Llywydd Undeb yr Annibynwyr.

3. Dathlu'r presennol a'r dyfodol. Agorwyd rhan olaf yr oedfa gyda Esyllt Jones yn ddarllen hanes Iesu yn cerdded ar y dŵr, o Efengyl

Mathew 14: 22-32. (beibl.net) Cafodd y rhan hon o'r ysgrythyr ddylanwad dwfn arnom, yng nghyfnod gwerthu'r capel ar Heol Siarl. Yna, yn drawiadol, darllenodd Carys gerdd a gyfansoddwyd gan ei thaid, Gilbert Ruddoch, yn cymharu Pont y Borth, sydd hefyd yn 200 oed, gydag Ebeneser. Cyflwynodd Gwilym Jeffs, Angor, neges bwrpasol yn pwysleisio bod popeth yn newid o'n cwmpas ond bod Iesu Grist, ein Gwaredwr, yn ddi-gyfnewid, "yr un ddoe, heddiw ac yn dragywydd." Oherwydd hynny gallwn ymddiried ynddo, gan seilio ein hiachawdwriaeth, ein presennol a'n dyfodol arno.

Yn dilyn yr oedfa daeth torf niferus i'r neuaddau, lle roedd y byrddau wedi eu harwlyo gyda chacenau danteithiol a phaneidiau uwchraddol. Yn goron ar y lluniaeth roedd Gill Lewis wedi pobi cacen odidog yn siap y rhif 200. Diolch iddi hi am gydlynnu'r lluniaeth mor effeithiol. Yn y neuadd roedd Gwenda Lewis wedi casglu creiriau difyr i'w harddangos, yn lluniau, rhaglenni a hen rifynnau o'r Llusern.

Hoffem ddiolch i bawb ohonoch a wnaeth y dathliad yn ddiwrnod llawen a chofiadwy. Ond mae'n diolch pennaf i'r Arglwydd am ein nerthu i dystio i'r newyddion da yn Iesu am ddwy ganrif.

Hyd yma y cynorthywodd yr Arglwydd ni."

Mae'n bosib gwylio recordiad o'r oedfa trwy fynd i gyfrif Youtube Ebeneser. Cawn gyfle i sôn llawer mwy am hanes Ebeneser yn y rhifyn nesaf o'r Llusern. *(Lluniau ar y dudalen hon, y ddwy dudalen nesaf, a'r dudalen gefn.)*




Gill Lewis, Huw Jenkins (mab Parch Emlyn G Jenkins), Geraint Tudur ac Alun Tudur




Murlun dathlu plant Llan Llanast dan ofal Mair Robins a Sandra Semmens



Gwenda Lewis



Paned a chacen neu ddishgled a theisen ar ôl y gwasanaeth dathlu.



Gwilym Jeffs



Edna Jenkins, Malcolm Thomas a Gwilym Dafydd





Diolch i Gill Lewis am wneud y deisen ddathlu



Parch Ifan Roberts



Bethan Hayes, Shelagh Lonergan, Lis Decaro, Sandra Semmens a Mair Robins,



Elwyn Moseley a'i ŵyr a wyres, Federico a Sara

Meinewn Ruddock Jones a'i merched Carys a Megan





Gethin Lewis a'r ferch-yng-nghyfraith, Maria (gwraig Aled, y mab.)



Aelodau a ffrindiau yn y gwasanaeth dathlu

## *Cyfarchion Eglwys Minny Street i Eglwys Ebeneser yn 200 mlwydd oed.*

Chwefror 2026


Annwyl Frodyr a Chwiorydd yng Nghrist yn Ebeneser

Roedd yn rhaid imi osod inc ar bapur i'ch cyfarch fel eglwys, a chwithau'n dathlu 200 o flynyddoedd o wasanaeth a gweinidogaeth.

Beth yw Ebeneser, Caerdydd?

Pedwar mur a tho? Na, nid adeilad mohonoch ond aelwyd. Aelwyd iach a chlos, un aelwyd o fendith dan drefn rheol a Cariad. Aelwyd nad oed ei math yn unman arall. Cynnwys yr hen a'r ifanc, syml a dysgedig, ceid-wadol ac uniongyrchol. Unir hwy gan yr wybodaeth mai plant Duw ydynt, ac os plant, cyd-etifeddion â Christ – eneidiau unedig. Mae pobl Rhosllanerchrugog yn ymfal-chïo yn y gred 'Nad lle yw Rhos ond pobol.' Mae hynny'n gwbwl wir am Ebeneser. Nid capel ond eglwys, ac mae'r achlysur hwn yn gyfle i nodi a dathlu mai hanfod cymeriad Ebeneser yw'r sawl a'i mynychai.

Felly, mentraf fel Llywydd cyfredol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac ar ran ffyddloniaid Eglwys Minny St, i ymuno trwy gyfrwng y llythyr hwn, â'ch diolch a'ch dathlu. Gyda chi diolchaf a diolchwn am y gobaith a wreiddiodd mor ddwfn, am y cariad a droes yn fflam; ac am y gobaith a droes capel yn eglwys. Diolchwn am y rhai a fu ers 200 o flynyddoedd yn eiriol trosom, a chi nawr yn diolch am y cyfle i eilio eu ffydd yn y genhadaeth heddiw – nawr – dros ein Harglwydd byw a bendigedig.



**Diolch i Dr Eirian Dafydd am gyfansoddi'r cywydd hwn ar achlysur penblwydd Ebeneser yn 200 oed Ebeneser 1826 – 2026 (1 Sam 7:12)**

Hwn yw'n maen, yn gonglfaen gwiw,
yn nodded i ni heddiw,
a'i ofal yn gynhaliaeth
i'r rhai ddaw, fel i'r rhai ddaeth
yn llif dwy ganrif o gân
i brofi llwybrau'I hafan.

Un aelwyd, sawl adeilad,
llawer tŷ i allor Tad,
ond un maen yn sylfaen sy'
i hynt wylaidd ein teulu;
a'i adduned i ddinas
am y grym ym mwrlwm gras.

Awn ymlaen a moliannwn
mwy ein Iôr ar y maen hwn
a'i godi'n uwch, uwch o hyd
i'r byw dystio i'r Bywyd.
A'r maen gyda'i Angor mwy
yw ein nerth a'n cynhorthwy

***Eirian Dafydd***

---

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Mae'n bleser cyhoeddi y bydd albwm newydd o emynau i'n heglwysi ar gael ar 30 Mawrth.




Mae'r prosiect ar y cyd â Chôr Caerdydd ac mae'r albwm yn cynnwys emynau addas i'r Pasg, Gŵyl Ddewi a'r Nadolig, wedi eu cyfansoddi gan Robat Arwyn, Eric Jones, Euros Rhys Evans ac eraill.

Bydd modd i chi lawrlwytho'r caneuon ar Apple Music a Spotify a gwylio a lawrlwytho fideos ar ein gwefan, [annibynwyr.cymru](annibynwyr.cymru)

## Albwm a sengl I’r Pasg


Yn ystod y misoedd diwethaf y mae Undeb yr Annibynwyr wedi bod yn ddiwyd yn paratoi dwy albwm o ganeuon Cristnogol Cymraeg. Fe fydd yr ail albwm, sy’n cynnwys caneuon gwreiddiol cyfoes gan nifer o gyfansoddwyr adnabyddus, yn cael ei ryddhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond mae’r un cyntaf yn cael ei ryddhau erbyn y Pasg. Cenir y caneuon gan Gôr Caerdydd o dan arweiniad Gwawr Owen.
Dywed Gwawr:


“Dros y canrifoedd mae cerddoriaeth wedi bod yn rhan bwysig iawn o wasanaethau crefyddol, gyda cherddoriaeth yn gosod naws, datgan ffydd, defosiwn a chlod, yn codi’r enaid ac yn cynnig cysur a phrofiadau ysbrydol. Mae gallu emosiynol cerddoriaeth mor bwerus ac roedd hi’n fraint i fi a Chôr Caerdydd dderbyn gwahoddiad i recordio darnau i Undeb Annibynwyr Cymru.

Pan ofynwyd i mi ddewis darnau addas ar gyfer Gŵyl ein nawddsant, Y Pasg a’r Nadolig, rhaid oedd chwilio am ddarnau Cymraeg nad oedd wedi eu recordio o’r blaen er mwyn I gynulleidfaoedd capeli a thu hwnt allu gwneud defnydd o’r darnau gan Robat Arwyn, Eric Jones, Euros Rhys Evans, Richard Vaughan, a Jeff Howard. Roedd e’n waith pleserus gorfod chwilio am ddarnau newydd a dysgu caneuon mor hyfryd gan gyfansoddwyr o Gymru. Fe wnaethon ni ychwanegu ambell i drac arall hefyd, gan obeithio y bydd pawb yn cael blas a bendith ar y gwrando.”

**Dyma rediad yr albwm:**

1. Anthem: Cedwch y Ffydd - Robat Arwyn
2. Gwyn dy fyd - Eric Jones, geiriau Arwel John
3. Iesu, Iesu ‘rwyt ti’n ddigon
   William Williams (Pantycelyn), JT Rees,
   Trefn. Richard Vaughan.
4. Bwrw dy faich - Felix Mendelssohn
5. Gweddi’r Arglwydd - Eric Jones
6. Sanctaidd - Franz Schubert, CC Cairns, cyf. E Cefni Jones
7. Dos Dywed ar y Mynydd - Trefniant gan Jeffrey Howard
8. Yn Dawel Olau - Euros Rhys Evans, geiriau Gwyn Thomas






Cynhaliwyd oedfa Gymraeg Dydd Gweddi'r Byd ar ddydd Gwener y 6ed o Fawrth yn Eglwys Dewi Sant.

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan grŵp ecwmenaidd o ferched Cristnogol o Nigeria. Wrth gymryd rhan yn y gwasanaeth yr oeddem yn ymuno â thon ryfeddol o weddi o amgylch y byd cyfan. Thema'r gwasanaeth oedd, "Rhoddaf orffwys i chwi, dewch". (Mathew 11:28-30).

Mewn rhai mannau yn Nigeria mae erledigaeth greulon ar Gristnogion. Yn ôl Open Doors maae mwy o Gristnogion yn Nigeria heddiw'n cael eu lladd nag mewn unrhyw wlad arall yn y byd. Yn y gwasanaeth, clywsom hanes pedair merch o Nigeria wnaeth ein hysbrydoli i geisio byd heb anghyfiawnder, ansicrwydd, erledigaeth grefyddol, tlodi, anobaith na phobl wedi'u gwthio i gyrion cymdeithas. Wrth i ni ymddiried yn Nuw, yr un sy'n cynnal ein breichiau, rydym yn uno fel un corff yng Nghrist. Wedi derbyn gorffwystra ynddo, gallwn wedyn cyflwyno'r gorffwystra hwnnw i'r byd. Roedd hi'n wasanaeth ysbrydoledig, ac yn alwad arnom i ymuno mewn gweddi a gweithred.

Cefais fy nghyffwrdd hyd ar ddagrau wrth wrando ar stori Leah Sharibu. Ym mis Chwefror 2018, fe herwgipiodd y grŵp Mwslemaidd Boko Haram 110 o ferched o ysgol uwchradd Dapchi. Wedi mis o drafodaethau gan lywodraeth y wlad, rhyddhawyd pob un ohonynt - ar wahân i Leah Sharibu, a hynny am ei bod wedi gwrthod troi cefn ar ei ffydd Gristnogol. Dyna deyrngarwch i'r Arglwydd Iesu Grist! Dyna ddewrder! Cefais fy herio i holi fy hun tybed beth fyddwn i'n ei wneud mewn amgylchiadau tebyg. Prin y byddwn i'n dangos yr un teyrngarwch a'r un dewrder.

Mae stori Leah yn ein hatgoffa o bris ffydd heddiw, ond mae hefyd yn dangos ei nerth. Yn Damaturu mae cymuned Gristnogol fechan yn parhau i gyfarfod i weddïo y bydd Leah yn dod adref. Mae eu gobaith, eu ffydd ddi-ball yn ysbrydoliaeth i ni ddal ati i gredu, i ddal ati i garu, ac i ddal ati i weddïo dros Leah a thros y miloedd o Gristnogion sy'n cael eu herlid heddiw. Peidiwn â'u hanghofio.

***Ifan Roberts***

**Cyfundeb De-ddwyrain Cymru**

Ar nos Fercher, 18fed o Chwefror cynhaliwyd cyfarfod dan ofal Ebeneser yn yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Newydd. Y siaradwr gwadd oedd y Parch. Dylan Rhys a siaradodd yn helaeth ar y pwnc ‘Deallusrwydd Artiffisial’.

**Noson ‘Cymry ar Ganfas’**



Cafwyd noson hwyliog ar nos Iau, 26ain o Chwefror, i godi arian at y Samariaid, yng nghlwb Tenis yr Eglwys Newydd. Bu dau ŵr gwadd yn siarad, sef yr artist Anthony Evans, a'r polymath Aled Gwyn.

Comisiynwyd Anthony i wneud portread o Aled, yr hwn a welir uchod. Cyflwynodd y gwaith print leinio, yn llawn doniolwch a ffraethineb. Yna bu Aled yn hel atgofion am ei fagwraeth ym Mharc Nest, ei ymgyrchu gwleidyddol, ei gyfnod fel gweinidog, ei brofiadau gydag Eirwyn Pontshân, a'i gyfnod yn y BBC. Diolch o galon iddynt am eu cyfraniadau ac am wneud y cwbl yn rhad ac am ddim.

Diolch hefyd i bawb gymerodd ran, i'r gynulleidfa ddaeth, ac i'r staff rhadlon yn y Clwb Tenis. Hefyd i griw trefnu elusen Ebeneser am eu gwaith, John, Bethan, Lis, Delyth, Enfys, a Joy.

**Colled**

Tristwch mawr inni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth Beti Wyn Davies, gynt o'r Barri, ar 3ydd o Chwefror, yn 96 mlwydd oed. Ers rhai blynyddoedd roedd wedi symud i fyw i gyffiniau Southampton er mwyn bod yn nes at y teulu. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Barri ar 5ed o Fawrth, dan ofal Parch Alun Tudur, gyda Parch Beti Wyn James a’r Parch Geraint Tudur yn cymryd rhan. Cydymdeimlwn gyda Helen, Paul a'r teulu cyfan yn eu colled. Coffa da amdani.

**Llongyfarchiadau...**

...i Seren Ann Jones ar basio ei phrawf gyrru ar 18fed o Chwefror.

**Penblwydd arbennig**

Dathlodd Gwilym Dafydd ei benblwydd yn 70 oed ar 25ain o Chwefror. Bu’n dathlu ar wyliau bach, gydag Eirian, yn Aberystwyth.



## Rygbi

Aeth criw i weld Caerdydd yn chwarae Leinster ar nos Wener 27ain o Chwefror, ym Mharc yr Arfau. Er yn noson oer a gwlyb cawsant noson wrth eu bodd a buddugoliaeth i Gaerdydd o 8 i 7. *(John Hayes, Dafydd Williams ac Eilir Jones wedi mwynhau'r gêm.)*

## Caniadaeth y Cysegr

Cyflwynwyd Caniadaeth y Cysegr ar BBC Radio Cymru ar 8fed o Fawrth gan aelodau Ebeneser sef, Gwenda Lewis, Eynon Williams, Gill Lewis, Gwilym Jeffs, Esyllt Jones ac Alun Tudur. Roedd gan yr holl emynau a ddewiswyd gysylltiad gydag Ebeneser. Diolch yn fawr iawn i Helen Thomas am gydlynu hyn ar ein rhan. Gellir gwrando ar y rhaglen trwy fynd i https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m002sm4j




Cynhaliwd Dydd Rhygwladol y Menywod eleni ar ddydd Sul 8fed Mawrth. Mae'r dydd hwn yn flynyddol yn gyfle byd-eang i ddathlu cyraeddiadau cymdeithasol, economaidd, diwyllianol a gweleidyddol menywod. Hefyd, y mae'r dydd yn gyfle i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd.

Addas iawn felly mai dwy wraig oedd yn arwain yr addoliad yng nghyfarfodydd pregethu Ebeneser. Yn y bore croesawyd Siân Wyn Rees, sy'n gweithio i Gymdeithas y Beibl. Mae Siân yn gyfaill i ni fel eglwys ac y mae'n lais cyfarwydd ar y cyfryngau torfol ac mewn eglwysi a chyfarfodydd ar hyd a lled Cymru. Yn oedfa'r bore, cododd Siân ei thestun o bregeth Pedr ar ddydd y Pentecost, o Lyfr yr Actau pennod 2 adnodau 22 – 24, adran sy'n cael ei ddiystyru yn aml gennym. Cyfeiriodd at 3 pheth. 1. Cyhoeddodd Pedr yr Iesu fel y Meseia. 2. Cyhoeddodd Pedr mai'r Iesu yw'r Arglwydd. 3. Y mae angen inni ymateb i'r gwririonedd hwn fel y gwnaeth y gynulleidfa oedd yn gwrando ar ddydd y Pentecost.

Yn oedfa'r pnawn Siân Meinir oedd wrth y llyw. Y mae Siân hefyd yn gyfaill i ni yn Ebeneser ac y mae ei llais i'w glywed fel cantores gyda'r Cwmni Opera Cenedlaethol. Wrth agor y gair aeth Siân a ni i lyfr Joel pennod 2 adnodau 12 – 16 gan dynnu sylw yn arbennig at adnod 13:


Rhwygwch eich calonnau, yn lle dim ond rhwygo'ch dillad."
Trowch yn ôl at yr ARGLWYDD eich Duw!

Cyfeiriodd at elynion sydd yn gallu ymosod arnom gan danseilio ein ffydd fel y locustiaid oedd yn difa popeth. Y mae Duw yn ein galw ni i ddod yn ôl ato ac i ymddiried ynddo. Dylem gyflwyno rhywbeth o'n calonnau i Dduw.

Diolch i'r ddwy Siân am ddod atom i rannu o air Duw.

---

## *Myfyrdod ar gyfer Y Pasg*



Dwedodd Iesu wrthi, "Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?"

Ioan 11: 25 - 26

**Y Ffordd Orau Un.**

Mae neges y Pasg yn un bwerus iawn ar fwy nac un lefel. Mae iddi arwyddocâd personol, eglwysig, cymdeithasol, cenedlaethol, byd eang a thragwyddol. Trwyddi mae Duw yn cyhoeddi buddugoliaeth tros farwolaeth, tywyllwch ac anghyfiawnder a hynny trwy waith rhyfeddol Iesu y Meseia. Mae yn neges sydd angen ei chyhoeddi a'i rhannu nawr mewn byd sy'n cael ei rwygo gan ryfel, casineb, trachwant a hiliaeth. Byd lle mae dynoliaeth yn dioddef o salwch difrifol, ac sydd angen clywed am y ffisig i wella'r aflwydd. Mae'r moddion i'w cael yn Iesu Grist.

**Cyflyru**

Yn aml o fewn i gymdeithas rydym yn cael ein cyflyrru erbyn hyn i feddwl mai casau, cosbi a dial yw'r ffordd i ddelio gydag unrhyw fath o wrthdaro ac anghydfod. Gwelwn hyn yn y Dwyrian Canol wrth i genhedloedd wrthdaro â'i gilydd. Mor drist yw bod yn dystion i hyn. Gwelwn hyn o fewn ein cymdeithas, lle mae pobl yn credu fod ymddwyn yn ymosodol ac anwaraidd yn dderbyniol, heb sôn am fod yn gorfforol dreisgar. Problem ysbrydol yw hon yn y bôn ac mae'n rhaid i galonnau pobl gael eu newid.

**Casáu**

Credai'r Phariseaid fod teyrnas Dduw yn gofyn iddynt amddiffyn eu hunain yn erbyn pobl roeddent yn eu gweld fel gelynion i'r Arglwydd. O ganlyniad, credent mai gweithred cwbl gyfiawn oedd cosbi pobl nad oeddent, yn eu tyb hwy, yn cadw at air Duw. Ar ben hynny roeddent yn argyhoeddiedig pe bae canran digon uchel o bobl Israel yn byw bywydau "cyfiawn" y byddai Duw yn anfon y Meseia i'w plith. Felly, yn eu meddyliau hwy, ffordd i hyrwyddo Teyrnas Dduw oedd cosbi a dial ar bobl anufudd. Dangosai'r Phariseaid eu ffyddlondeb i Dduw, trwy gasáu pobl. Dyrchafwyd casineb i fod yn elfen mewn duwioldeb.

**Maddeuant**

Ond dangosodd Iesu ffordd gwbl wahanol o feddwl a gweithredu. Croesawai'r Iesu yr union bobl oedd y Phariseaid yn eu dieithrio. Gwahoddai "bechaduriaid" at ei fwrdd, gan gynnig parch a maddeuant iddynt. Yn nysgieidaeth yr Iesu fel hyn y mae Teyrnas Dduw yn gweithredu. Fe aeth mor bell â dweud rhywbeth mor eithafol a "câr dy elyn."

Roedd Iesu'n dysgu math o gariad nad oedd neb wedi ei ddychmygu, sef cariad sydd yn caru gelynion. Roedd y Phariseaid yn casau pechaduriaid, oherwydd eu bod hwy yn caru Duw. Ond heriodd Iesu y ffordd yma o feddwl trwy ddysgu ein bod yn dangos maint ein cariad at Dduw trwy garu ein gelynion.

Crynhodd Wayne Northey hyn gyda'r geiriau, "The biblical test case for love of God is love of neighbour; the biblical test case for love of neighbour is love of enemy. Failure to love the enemy is failure to love God."



A dyma ddangosodd Iesu ar y Pasg hwnnw, trwy erchyllterau'r croeshoelio a gogoniant yr atgyfodiad.

Y Groes yw'r fan lle mae Iesu yn maddau i'w elynion, yn hytrach na'u difa a'u lladd. Yn wir bu farw dros ei elynion er mwyn iddynt hwy, trwy gredu ynddo, gael maddeuant a chymod gyda Duw.

Dyma yw ffordd Teyrnas Nefoedd.

Dyma ffordd Iesu Grist wrth ddelio gyda phroblemau ein hoes. Dyma'r moddion mae dynoliaeth ei angen sy'n newid calonnau.

# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

Rydyn ni wedi bod yn edrych ar lythyr Paul at y Colosiaid dros y tymor diwethaf; a rhyfeddu wrth weld pa mor syml yn ei hanfod ydy'r efengyl: bod Iesu yn ein caru a'i fod o'n ddigon. Mae hefyd wedi ein hatgoffa ei fod o yn 'ben ar y cwbl i gyd' (Col 1:18), adnod mor bwyisg i'w chofio yng nghanol ansefydlogrwydd ein hoes! Yn olaf, mae'r llythyr wedi ein hannog i gofio bod gwahoddiad i bob un ohonom ni, drwy weddi a gweithred, i fod yn rhannu teyrnas nefoedd a'r heddwch, cyfiawnder, a'r gras sy' ynghlwm.




Bu ambell i ddigwyddiad ychwanegol ac arbennig dros y misoedd diwethaf. Roedd hi'n hyfryd ymuno gyda Ebeneser p'nawn i ddathlu 200 mlynedd o fywyd yr Eglwys gyda un o fynychwyr Angor yn dweud wrtha i bod hi'n fraint gweld y 'DNA' arloesol o le mae Angor wedi'i sefydlu! Rydym hefyd wedi cynnal: Noson Grefftau, Parti Pasg bob oed, a bydd Gwasanaeth Gwener y Groglith ar y cyd gydag Eglwysi De Caerdydd. Diolch i bawb fu'n trefnu a pharatoi.

Yn y misoedd nesaf byddwn ni'n edrych ar 'Rhyfeddol Ras'. Y cariad anhygoel yna y mae Iesu yn estyn allan tuag atom ni sydd yn hollol radical; hollol wahanol i bopeth mae'r byd yn ei gynnig.

**Trefniadau Misol Angor:**

- Sul 1af – Angor Acwstig 4yh. Bay Church, Grangetown.
  Cwrdd Gweddi ar Zoom 8yh
- 2il Sul- Angor 4yh. Bay Church, Grangetown.
- 3ydd Sul- Y Bwrdd 4yh. Bay Church, Grangetown.
- 4ydd Sul- Angor 4yh. Bay Church, Grangetown.
- Bore Gwener- Clwb Tots Angor 9:45-11:00
  Y Pafiliwn, Gerddi'r Grange.

Gweddïwn dros ffrindiau a'r gymuned yn Grangetown. Diolch i holl deulu Ebeneser am eich gweddïau a'ch cefnogaeth ddiffuant yn y fenter yma. Ymunwch i weddïo gyda ni y bydd mwy yn ymuno ar daith ffydd.



# Calendr

Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Pob nos Lun am 7.30 y.h. cynhelir y cwrdd gweddi yng Nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

Cynhelir 'Y Cylch' bob yn ail ddydd Mawrth, yng Nghaffi'r Roundabout, Yr Eglwys Newydd, rhwng 10:30yb ac 11:30yb.

Cynhelir Angor bob Sul gyda chyfarfodydd amrywiol yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:00yp.  Gwasanaethau, Angor Acwstig, Cwrdd Gweddi, Grŵp Merched a Chlwb Tots.

## Suliau Ebrill a Mai

**5 Ebrill** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**12 Ebrill** - 10:00yb yn CEN - i'w drefnu
3:00yp yn EF - Ifan a Catrin Roberts
**19 Ebrill** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**26 Ebrill** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur

**3 Mai** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**10 Mai** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**17 Mai** - 10:00yb yn CEN - Llan Llanast i'r plant
Rebecca Elliot, Cymorth Cristnogol
3:00yp yn EF - Alun Tudur
**24 Mai** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Alun Tudur
**31 Mai** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp yn EF - Heulwen Davies, Llanelli

Llan Llanast *Nesaf*

**10:00yb**
**19 Ebrill, 17 Mai**
**Canolfan yr Eglwys Newydd**

**Cyfraniadau i'r Llusern.**

Os oes rhywbeth hoffech chi ei weld yn Y Llusern neu os oes ganddoch chi gyfraniad ar gyfer Y Llusern, e.e. hoff emyn a pham neu hoff adnod a pham, cysylltwch ag un o'r tîm golgyddol, Alun, Petra, Janette neu Tudur.

# Dathlu 200 Ebeneser

1826 - 2026



Helen Thomas, Alison Jones a Catrin Jên



Sion Gwyn, Gwilym Jeffs a Cynan Llwyd Angor





Sandra Semmens ac Eleri Peleg-Williams



Arwel Peleg-Williams
a Mair Robins